




Yours For Good

AROLWG EGLWYSI CENEDLAETHOL

Rhoi llais i bob eglwys



Dull gweithredu

Cyfanswm o 3,628 o eglwysi a gymerodd ran yn yr arolwg, gyda'r ymatebion a gafwyd yn adlewyrchu'r DU yn eang o ran enwad, presenoldeb, oedran ac adeiladwaith yr adeiladau a'u lleoliad, yn seiliedig ar ddata annibynnol perthnasol. Pwysleisiwyd y canlyniadau wedyn yn ôl enwad, gwlad o fewn y DU, natur wledig, a statws rhestru.



Darllenwch yr arolwg yn llawn

Ynglŷn



Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol

Elusen annibynnol sy'n gweithio ar lawr gwlad ym mhob un o'r pedair gwlad ac yn cefnogi eglwysi o bob enwad fel bod adeiladau eglwys ledled y DU yn cael eu cynnal yn dda, yn agored i bawb, yn gynaliadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi.

WHITESTONE

Whitestone

Cwmni ymgynghori ymchwil gyda arbenigedd penodol mewn materion ffydd a chynulleidfaoedd, sy'n ceisio cefnogi cleientiaid drwy fewnwelediad sy'n cyfrannu at bolisi cyhoeddus, rheoli enw da a chyfathrebu.

Ffoto: Ruth Towell



NAWR YW'R FOMENT I WEITHREDU

Mae'r adroddiad hwn yn dangos maint yr hyn sydd ar risg ynghyd â'r gobaith sy'n dal i ddisgleirio. Nid yw eglwysi'n weddillion tawel o'r gorffennol; maent yn lefydd byw ac egniol, wedi'u cynnal gan wirfoddolwyr a chymunedau sy'n dibynnu arnynt. Maent yn enghraifft glir o wydnwch yn ei ystyr buraf – yn ymaddasu i anghenion newidiol, yn croesawu'r rhai mwyaf bregus ac yn diogelu trysorau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yma nid yn unig yw portread o frwydro ond hefyd un o gryfder rhyfeddol, ac yn ein hatgoffa fod y lleoedd hyn yn haeddu ein hymrwymiad parhaus.

Mae'r Arolwg Eglwysi Cenedlaethol yn amlinellu'n glir yr heriau sy'n wynebu eglwysi, ac hefyd y cyfleoedd i adnewyddu os ydym yn gweithredu gyda'n gilydd.

Heb ymyrraeth mae'r peryglon yn uchel ac rydym mewn perygl o gollir adeiladau hyn a'r cyfan y maent yn ei gynrychioli am byth. Gadewch i ni ymateb i'r alwad hon fel y bydd eglwysi, capeli a thai cyfarfod yn parhau i sefyll fel arwyddluniau o obaith ledled y Deyrnas Unedig yn awr ac am genedlaethau i ddod.

Yr Arglwydd Syr Philip Rutnam

Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol



Amcangyfrifir bod tua 38,500 o eglwysi, capeli a thai cyfarfod yn y DU, a thua hanner ohonynt yn adeiladau cofrestredig.



TUDALENNAU TRI A PEDWAR



Pam mae arnom angen eglwysi

Mae eglwysi'n darparu canolfannau cymdeithasol unigryw mewn pentrefi, trefi a dinasoedd. Maent ar agor i bawb, wedi'u gwreiddio mewn hunaniaeth leol ac yn cael eu hymddiried gan gymunedau.

Mae dros
hanner

yr holl eglwysi yn cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill o leiaf unwaith yr wythnos

Mae
85%

yn dymuno ehangu'r gefnogaeth gymunedol pe bai ganddynt fwy o adnoddau.

Mae
80%



yn cynnal gwasanaethau wythnosol, ac mae addoli yn parhau'n ganolog

Mae
83%

yn dweud bod gwirfoddolwyr yn ganolog i reolaeth lwyddiannus adeiladau eglwysig



eglwys yn dweud y bydd angen atgyweiriadau brys i doeau a gwteri/ffosydd draenio yn ystod y 12 mis nesaf



Ar flaen y gad mewn gofal cymdeithasol

Eglwysi yw 'rhwydwaith cymorth cudd' y DU, gan gynnal gwasanaethau hanfodol fel banciau bwyd, cyngor ar ddyledion, cymorth i bobl â dibyniaeth, grwpiau iechyd meddwl, clybiau ieuentid, corau a manau cynnes yn aml mewn lleoedd lle nad oes unrhyw wasanaethau eraill ar gael.

56% Mae 56% yn cymryd rhan mewn dosbarthu bwyd megis banciau bwyd, gyda 37% yn ei gynnig yn wythnosol.

34% Mae 34% yn darparu cymorth i bobl sy'n ei chael yn anodd gyda phryder, iselder neu unigedd.

49% Mae 49% yn cynnal grwpiau ieuentid, ac mae traean ohonynt yn cyfarfod yn wythnosol.

Heriau gyda chyflwr yr adeiladau

Mae atgyweirio toeau, gwteri a systemau gwresogi ymhlith yr anghenion mwyaf brys, gyda 28% o gyllidebau wedi'u gwario ar atgyweirio a chynnal a chadw dros y tair blynedd diwethaf.

- Mae cyflwr toeau eglwysi wedi dirywio dros y 15 mlynedd ddiwethaf.
- Er bod 61% yn cael eu hadrodd fel rhai mewn cyflwr da, mae hyn wedi gostwng yn sylweddol ers 2010 (70%).
- Mae 39% bellach yn dweud bod eu to mewn perygl neu mewn angen brys o atgyweirio, o'i gymharu â dim ond 30% yn 2010.

Awch cryf i wneud mwy

Mae eglwysi yn glir ynghylch pa adnoddau sydd eu hangen arnynt i allu gwneud mwy ac i ddiwallu anghenion eu cymunedau lleol. Mae 70% yn dweud bod angen mwy o wirfoddolwyr arnynt, mae 62% yn dweud cymorth ariannol ac mae 39% yn dweud cyfleusterau gwell er mwyn i hynny ddigwydd.





I ddarllen yr adran hon yn llawn, sganio'r cod QR.



I ddarllen yr adran hon yn llawn, sganio'r cod QR.

Cyflwr presennol adeilad yr eglwys a'r ardaloedd cyfagos (2010 a 2025)





**Sant Grada a'r
Groes Sanctaidd**
Grade, Cernyw

Roedd y to eisoes mewn cyflwr gwael, ac yna fe darodd storm

Eglwys wledig anghysbell ar Benrhyn Lizard yng Nghernyw yw Sant Grada a'r Groes Sanctaidd, sydd â statws rhestr Gradd I. Gellir ei gweld am filltiroedd o gwmpas ac mae'n denu miloedd o ymwelwyr drwy ei harddwch a'i hanes.

Ond mae angen brys am atgyweiriadau i'r to a'r twr, gyda'r gost yn cael ei hamcangyfrif tua £450,000. Yn aml mae dŵr yn llifo i mewn i'r adeilad yn ystod cyfnodau o law trwm ac mae planhigion yn tyfu rhwng y cerrig a'r bylchau yn y waliau. Mae llawer o grwpiau cymunedol am ddefnyddio'r adeilad — ond dim ond pan fydd yn ddiogel ac yn sych i wneud hynny a digon sych.

Mae'r eglwys wedi gwneud cais am nifer o grantiau ac wedi dod o hyd i ffyrdd arloesol o godi arian, gan gynnwys cynnal cyngerdd caneuon môr blynyddol. Ond mae diffyg ariannol yn parhau, ac mae wedi gwaethygu

oherwydd newidiadau i'r Cynllun Grantiau ar gyfer Mannau Addoli Cofrestredig.

Gall stormydd gaeaf fod yn beryglus i hen adeiladau, ac yn ystod y gaeaf diwethaf profodd hynny'n wir i St Grada and Holy Cross. Cafodd teils eu chwythu i ffwrdd a gadawyd twll yn y to. Bu'n rhaid cau rhannau o'r eglwys am resymau diogelwch.

"Mae'n rhaid i ni achub yr eglwys. Mae wedi sefyll yma ers cannoedd a channoedd o flynyddoedd. Nid yw'n mynd i gwmpo tra byddwn ni'n gyfrifol," meddai Wendy Elliott, cefnogwr hir o'r eglwys.



Ceidwaid Trysorau Diwylliannol

Mae ein heglwysi'n sefyll fel tystion rhyfeddol i hanes. Nid yw treftadaeth yma yn cael ei chadw'n unig, ond yn cael ei byw: mae ffenestri lliw, cofebion a chofnodion plwyf yn parhau i gael eu defnyddio bob dydd, gan gysylltu cenedlaethau.

I ddarllen yr adran hon yn llawn, sganio'r cod QR.



Trosglwyddo celf i'r genhedlaeth nesaf

Mae St Macartan's (Capel Forth) ychydig y tu allan i Augher yn Sir Tyrone wedi troi'n gyrchfan i dwristiaid. Mae pobl yn dod o bedwar ban byd, mor bell â Seland Newydd, i weld y dreftadaeth sydd y tu mewn i'r eglwys wledig fach hon. A dechreuodd y cyfan pan gomisiynodd yr eglwys arolwg pensaernïol a gwneud yr atgyweiriadau angenrheidiol — a oedd yn bosibl diolch i godi arian yn lleol a cheisiadau am grantiau — i'w hadeilad o ganol y 19eg ganrif i ddiogelu'r ffenestri lliw y tu mewn.

Mae pedair ffenestr drawiadol gan Clarke Studio yn yr eglwys. Ar ôl eu hadfer, mae'r eglwys bellach yn gweithio gyda chyrff twristiaeth lleol i hyrwyddo teithiau o amgylch St Macartan's. Maent hefyd yn parhau i gydweithio ag ysgolion cyfagos i rannu gwybodaeth am y dreftadaeth a'r hanes lleol. Hyd yn oed cynhaliwyd cystadleuaeth celf ffenestri lliw gydag ysgol leol a dangoswyd yr arddangosfa o'r gwaith celf i'r plant a'u teuluoedd.



**Capel Sant Macartan
(Y Forth)**
Augher, Swydd Tyron

Mae Canon McGahan, Offeiriad Plwyf yn St Macartan's, yn rhannu pam mae hyn mor bwysig:

"Roedd yn gyfle gwych mewn perthynas â holl ffenestri lliw Harry Clarke, gan greu ymwybyddiaeth o'r hanes sy'n gysylltiedig â'r ffenestri hynny, yr hanes sy'n gysylltiedig â'r eglwys leol a'r hanes sy'n gysylltiedig â'r gymuned leol.

"Ac wrth i ni fyfyrrio ar yr eglwys, rydym yn meddwl am y ffaith i bobl yn y gorffennol adael etifeddiaeth ryfeddol i ni – fe wnaethant weithio mor galed i roi i ni adeilad, eglwys sy'n rhan mor fawr o'r gymuned.

"A thrwy ddod â'r presennol i'r dyfodol – hon oedd y weledigaeth, hon oedd y gobaith, a dyma beth yr ydym yn parhau i'w wneud."

"Dyna pam y gwnaethom gynnwys cymaint o bobl ifanc o'n hysgolion cynradd lleol yn y gystadleuaeth gelf ac arddangosfa... rydym am i'r ffenestri hyn fod mewn cyflwr da fel y gallwn eu trosglwyddo, nid yn unig i'r genhedlaeth bresennol ond hefyd i'r cenedlaethau i ddod."



Mynd, mynd, wedi mynd. Beth sydd ar risg ar gyfer dyfodol treftadaeth Cymru

Yng Nghymru, aon ddaeth Saesneg iaith swyddogol, y 'capel' Cymraeg oedd yn caniatáu i lawer o'r boblogaeth barhau i gyfarfod a byw rhan o'u bywydau drwy'r Gymraeg. Y capel sydd wedi sicrhau goroesiad yr iaith Gymraeg hyd heddiw.

Mae capeli'n nodwedd sy'n diffinio tirwedd Cymru. Ond am ba hyd? Wrth i gapeli gael eu haddasu, eu gwerthu neu eu dymchwel, mae llawer o gof diwylliannol Cymru mewn perygl o gael ei anghofio.



15% o eglwysi yng Nghymru yn cynnig addoli dwyieithog ac mae 12% ychwanegol yn defnyddio'r Gymraeg fel y brif iaith.

Calon bywyd Cymru

Gan Huw Powell-Davies

Mae gan Gapel Bethesda le amlwg yn hanes hyrwyddo'r iaith Gymraeg yma ar y ffin ac ar hyd a lled Cymru.

Bu'r eglwys yn elwa o gyfraniad llenorion, emynwyr, diwinyddion a newyddiadurwyr a weithiodd drwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Pobl fel Thomas Jones, Dinbych, Jane Owen, Roger Edwards a Daniel Owen a gafodd anogaeth ym Methesda a deunydd ar gyfer straeon a nofelau yng nghymeriadau a bywyd y capel.

Yr iaith Gymraeg oedd iaith yr Ysgol Sul o'r dechrau yn 1806. Yn ddiweddarach, yng nghanol yr 20fed ganrif, sefydlwyd dosbarth Cymraeg yma a ddatblygodd yn y pen draw yn ddwy ysgol Gymraeg yn y dref.

Mae'r capel wedi bod yn galon bywyd Cymru dros y blynyddoedd, gan weu ffydd a diwylliant gyda'i gilydd ac mae'n parhau i chwarae ei ran yn y gwaith hwnnw.



Gapel Bethesda
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint



Pwysau ariannol ar y lefel leol

Mae cynulleidfaoedd a phobl leol yn parhau i fod yn sail i'r gefnogaeth elusennol i eglwysi. Mae 77% o eglwysi'n dibynnu ar roddion lleol ac mae 54% ar godi arian yn lleol. Mae mwy na hanner yr eglwysi (65%) wedi talu rhwng 76 a 100% o gostau atgyweirio o'u cronfeydd eu hunain dros y 5 mlynedd diwethaf.



I ddarllen yr adran hon yn llawn, sganio'r cod QR.



Mae **77%** o eglwysi'n dibynnu ar roddion lleol

Gwneud cais am grant o safbwynt eglwys

Gan y Dr Phil Simpson, Clerc y Sesiwn

Mae'n rhaid cadw ein heglwys, sef yr unig eglwys am filltiroedd, ar agor a'i chynnal i safonau cyfoes. Mae cadwraeth, atgyweiriadau safonol a gwelliannau i'r adeilad yn hanfodol ac yn dibynnu ar swm enfawr o waith a allai neu na allai ddod â grant.

Mae'r amser i wneud hyn yn cael ei wasgu allan o'r gwirfoddolwyr sydd eisoes yn cario'r rhan fwyaf o'r gwaith gwasanaeth; nhw sydd agosaf at y weledigaeth o'r eglwys fel arwyddlun yn y gymuned.

Y rhan nesaf o'n rhaglen codi arian yw i codi £250,000 i adfer ein ffenestri. I wireddu hyn bydd angen llawer iawn o oriau i adnabod ac ymgeisio i nifer fawr o ymddiriedolaethau elusennol sy'n rhoi grantiau ac nid bob tro'n llwyddiannus.



Mae gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser a'u harian eu hunain yn asgwrn cefn ein heglwys, ac mae ceisio grantiau'n hanfodol: fel arall mae'r symiau dan sylw'n rhy fawr i gynulleidfa fach ond fywiog.

Yn y cyfamser, mae gwasanaeth dyddiol y gwirfoddolwr hwnnw'n cael ei adael gyda phethau'n cael eu gohirio. Yn aml rydym yn meddwl pe gellid sianelu'r ymdrechion codi arian i'r prif waith a wnawn, y byddai'r effaith yn enfawr.



Eglwys Plwyf Killin & Ardeonaig
Killin, Sir Perth



DYMA FOMENT ALLWEDDOL

Mae'r arolwg yn dangos bod eglwysi am wneud mwy — i ehangu rhaglenni diwylliannol, i ddyfnhau gofal cymdeithasol ac i gryfhau eu gweithredu amgylcheddol. Ond heb ymyrraeth mae'r peryglon yn amlwg. Os bydd eglwysi'n cau, bydd yr effeithiau'n lluosu: colled i'n treftadaeth, colled i ofal cymdeithasol, a cholled o leoedd ar gyfer cysur a pherthyn. Byddai hynny'n arwydd nid yn unig o esgeulustod i'n hetifeddiaeth ddiwylliannol, ond hefyd o fethiant i ofalu am gymunedau yn eu hamser o fwyaf bregusrwydd.

Mae angen ymateb cenedlaethol sy'n cyfateb i'w hegri gyda chefnogaeth wirioneddol. Rhaid i enwadau gryfhau eu cefnogaeth, rhaid i sefydliadau treftadaeth alinio eu harbenigedd a'u cefnogaeth, a rhaid i awdurdodau lleol chwarae eu rhan. Yn anad dim, rhaid i Lywodraeth y DU gamu ymlaen gyda fframwaith ariannu strategol a chyson: buddsoddiad mewn cynnal a chadw, gwresogi, cynaliadwyedd amgylcheddol a hygyrchedd sy'n syml i'w gael ac ar gael i bob eglwys, waeth beth fo'u maint neu'u henwad.

Mae'r dewis yn glir. Mae'r adeiladau hyn, a'r cymunedau y maent yn eu cynnal, yn rhan o'n hetifeddiaeth a'n cyfrifoldeb ar y cyd.

Nawr yw'r foment i weithredu.



Diolchiadau

Cafodd yr Arolwg Eglwysi Cenedlaethol, a grëwyd gan Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol, ei wireddu drwy gyfraniad miloedd o wirfoddolwyr, staff a chlerigwyr a gymerodd ran. Diolch am eich amser, eich gofal a'ch penderfyniad i sicrhau bod llais eich eglwys wedi'i glywed.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth garedig a hael gan Yeomans, Ecclesiastical Insurance a Phrifysgol Efrog, a wnaeth alluogi i'r Arolwg gael ei gynnal.



Ynglŷn ag Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol

Nid manau addoli yn unig yw eglwysi, capeli a thai cyfarfod. Maent yn galon ein cymunedau, y glud sy'n dal pobl gyda'i gilydd. Yn llawn banciau bwyd, grwpiau rhieni a phlant bach, gwasanaethau iechyd meddwl a manau cynnes, mae eglwysi ym mhobman yn gwasanaethu pobl leol ac yn hybu lles ein cenedl.

Ond mae eglwysi mewn perygl. Mae llawer ohonynt yn dirywio. Ac unwaith y caeir y drysau, prin y cânt eu hagor eto. Fel cymdeithas ni allwn fforddio colli eglwysi. Mae arnom angen arweinwyr fel chi i ymuno ag Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol, i leisio dros eglwysi, i ddiogelu ein treftadaeth werthfawr ac i helpu'r manau cymunedol hanfodol hyn i oroesi.

- **Rydym yn Lleisio**
Mae adeiladau eglwys yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael cefnogaeth
- **Rydym yn Adeiladu**
Mae eglwysi'n cael eu cynnal yn dda, yn addasadwy ac mewn cyflwr cadarn
- **Rydym yn Agor**
Mae eglwysi'n gynaliadwy, ar agor ac yn groesawgar i bawb



Yours For Good

Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol
7 Tufton Street
London SW1P 3QB

☎ 020 7222 0605
✉ info@nationalchurchestrust.org

Rhif Elusen Gofrestredig 1119845
Rhif Cwmni 06265201
Rhif VAT 450748780

